# Ffotograffydd Lluniau'r BBC – Telerau Arbennig

Sylwch fod y fersiwn Saesneg o'r telerau hyn ar gael isod.

Os bydd y telerau ac amodau cyffredinol yn gwrthdaro â'r telerau arbennig hyn, y telerau arbennig fydd drechaf.

| | |
|---|---|
| **1 Diffiniadau** | Mae'r "Dyddiad Cyflwyno" yn golygu'r dyddiad a nodir yn y Dogfennau Archebu ar gyfer cyflwyno'r Ffotograffau neu, os nad oes dyddiad, o fewn 7 diwrnod i gwblhau'r aseiniad ffotograffig.<br>Mae "Ffotograffau" yn golygu'r holl ddelweddau llonydd digidol sydd wedi'u tynnu gennych Chi yn unol â'r Archeb. |
| **2 Cyflwyno** | 2.1 Rydych chi'n cytuno i gyflwyno'r Ffotograffau ar y Dyddiad Cyflwyno a chael cyfarwyddyd gan y BBC. Rhaid i bob ffotograff a dynnir yn unol â'r Archeb fodloni'r telerau canlynol:<br>(a) Cael ei gyflwyno heb gael ei olygu ymlaen llaw;<br>(b) Cael ei dynnu ar y cydraniad uchaf posibl;<br>(c) Cael ei gyflwyno mewn dau fformat: Ffeiliau RAW – o leiaf 45 megabeit ar gyfer deunydd uned a 60mb ar gyfer ffotograffiaeth Celf a Phortreadu Allweddol, 300dpi. JPEG – 35 megabeit, 300 dpi; a<br>(d) Cael ei gyflwyno i'r BBC heb yr holl fetaddata personol.<br><br>2.2 Rydych Chi'n cytuno nad oes gennych Chi hawl i dynnu unrhyw ffotograffau (ac eithrio'r rhai y mae'n rhaid i chi eu tynnu yn unol â'r Archeb) na fyddech Chi fel arfer wedi gallu eu tynnu oherwydd diffyg mynediad neu pe na baech Chi wedi ymgymryd â'r Archeb. Os byddwch Chi yn tynnu unrhyw ffotograffau ar wahân i'r rhai a nodir yn Eich archeb, bydd y ffotograffau hynny'n cael eu trin fel Ffotograffau a bydd y Telerau ac Amodau Arbennig hyn, ynghyd â'r Telerau ac Amodau cyffredinol, yn berthnasol iddynt. |
| **3 Defnydd** | 3.1 Drwy dderbyn yr Archeb hon, rydych Chi'n cytuno nad oes gennych Chi hawl i gadw copïau o'r Ffotograffau na'u defnyddio heb ganiatâd ysgrifenedig BBC Pictures ymlaen llaw. |

3.2 Ni fydd y BBC yn afresymol yn gwrthod rhoi caniatâd i Chi ddefnyddio'r Ffotograffau at ddibenion anfasnachol (e.e. portffolios, gwefannau a chystadlaethau). Pan roddir caniatâd, bydd copïau'n cael eu darparu i Chi gan y BBC am gost, ond byddwch Chi'n derbyn ac yn cydnabod na fydd y BBC yn cydsynio i'r Ffotograffau gael eu defnyddio na'u cyhoeddi yn unol â'r cymal hwn cyn iddynt gael eu cyhoeddi a/neu eu darlledu am y tro cyntaf ar raglen sy'n gysylltiedig â'r BBC, ac nad yw atal cydsyniad o'r fath yn afresymol o dan yr amgylchiadau hyn.

**4 Gwarantau**

4.1 Rydych Chi'n gwarantu:
(a) Y byddwch Chi bob amser yn sicrhau diogelwch a chyfrinachedd y Ffotograffau ac yn atal unrhyw berson heb awdurdod rhag gweld neu gamddefnyddio'r Ffotograffau;
(b) Bod y Ffotograffau yn rhai gwreiddiol ac na fyddant yn cael eu cyhoeddi na'u defnyddio mewn unrhyw ffordd cyn eu Cyflwyno;
(c) Bod gennych chi bob hawl i gytuno i'r Telerau ac Amodau Arbennig hyn, yn ogystal â'r Telerau ac Amodau cyffredinol cysylltiedig; a
(d) Ni fydd y defnydd o'r Ffotograffau gan y BBC yn unol â'r Telerau ac Amodau Arbennig hyn, a'r Telerau ac Amodau cyffredinol, yn tresmasu ar hawliau unrhyw drydydd parti.